



Ysgolion annibynnol

Mae ysgolion annibynnol prif ffrwd yn parhau i gynnig **gofal, cymorth ac arweiniad** cryf, yn enwedig i ddisgyblion a gafodd brofiad o broblemau yn ymwneud â **lles** o ganlyniad i'r pandemig.

Beth sy'n mynd yn dda

- Mae lles disgyblion a staff yn ffocws cryf ym mron pob ysgol.
- Mae ysgolion yn rhoi strategaethau defnyddiol ar waith i gefnogi lles meddyliol disgyblion ac i fynd i'r afael ag ystyriaethau emosiynol yn deillio o'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyflogi cwnsleriaid annibynnol.
- Mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu.

Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cael ei chyflwyno'n effeithiol bob tro, yn enwedig i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn colli allan ar ddysgu pwysig yn y pwnc hwn.



Mae ysgolion prif ffrwd annibynnol wedi dychwelyd i **addysgu** wyneb-yn-wyneb ar ôl symud yn gyflym ac yn effeithiol i addysgu ar-lein yn ystod y pandemig. Maent yn cefnogi **dysgu** disgyblion ac yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn.

Beth sy'n mynd yn dda

- Mae ymateb cyflym ac effeithiol ysgolion i her addysgu ar-lein yn sicrhau bod cynnydd a safonau disgyblion yn uchel o hyd.
- Mae athrawon yn parhau i ddefnyddio technoleg yn effeithiol lle mae'n ategu profiad dysgu disgyblion.

Beth sydd angen ei wella

- Nid yw addysgu'n herio'r disgyblion mwyaf abl bob tro.
- Mae gweithgareddau a phrofiadau dysgu cydgrwicwlaidd wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig COVID-19.



Mae **arweinwyr** yn parhau i fod yn wydn ac yn greadigol wrth iddynt addasu darpariaeth ar ôl y pandemig a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Beth sy'n mynd yn dda

- Ymatebodd arweinwyr yn gyflym, yn greadigol ac yn effeithiol i heriau'r pandemig.
- Mae arweinwyr yn parhau i feithrin y perthynas waith gref rhwng staff a rhieni a sefydlwyd yn ystod y pandemig.
- Mae arweinwyr yn gweithio i sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu mewn ysgolion.

Beth sydd angen ei wella

- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff wedi lleihau oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y pandemig.
- [Nid yw prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon miniog bob tro ac efallai na fyddant yn amlygu amrywioldeb mewn darpariaeth.](#)